



DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG

Nigel Aurelius
Prif Weithredwr Cynorthwyol Adnoddau

Drwy gydol y pandemig, parhaodd yr Adran Adnoddau i ddarparu cefnogaeth effeithiol i'r holl feysydd gwasanaeth gan gynnwys gweinyddu'r gronfa caledi yn sgil Covid i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cefnogi'n ariannol. Ar ran Llywodraeth Cymru, roedd y gwasanaeth hefyd yn gweinyddu taliadau cymorth lles i'n trigolion mwyaf bregus ac yn helpu busnesau lleol i gael hyd i nifer o gynlluniau cymorth.

Beth aeth yn dda...

- ✓ Ymateb y staff i weithio o adref a chynnal gwasanaethau cymorth mewn amgylchiadau eithriadol.
- ✓ Cefnogi mentrau polisi Cynghorau a Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus mewn ymateb i'r pandemig.
- ✓ Cefnogi diogelu plant ac oedolion bregus yn ystod cyfnod lle'r oedd galw mawr amdano.
- ✓ Cyflwyno cynllun Archwilio Mewnol ac addasu ein ffyrdd o weithio fel Tîm a gweithio gartref.
- ✓ Cau cyfrifon 2020/21 y cyngor yn llwyddiannus a chefnogi meysydd gwasanaeth ac ysgolion i reoli cyllidebau a rhagweld ystyriaethau Cynllunio Ariannol Cyfredol a Thymor Canolig (MTPF).
- ✓ Gweithredu systemau Ffônio Teams i ddisodli ffonau desg.
- ✓ Mudo gliniaduron cyngor i Windows 10 gan ddefnyddio technolegau "dros yr aer" a defnyddio Always On VPN (AOVPN) ar draws yr holl ddyfeisiau.
- ✓ Adleoli staff yn gyflym i wasanaethau rheng flaen hanfodol a chefnogi'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu
- ✓ Cynnal lefel uchel o osodiadau a chydysyniadau â rhent yn yr ystâd fasnachol.
- ✓ Cyflwyno cyfarfodydd rhithwir a hybrid er mwyn galluogi cyfarfodydd democratiaeth i barhau yn ystod y pandemig.
- ✓ Cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn gostwng i 0.13 o bob 1,000 o drigolion sef y ffigwr isaf ar y cyd yn awdurdodau lleol Cymru.
- ✓ Gweithredu Cynllun Kickstart gan gefnogi pobl ifanc i gael gwaith gyda'r Cyngor.
- ✓ Cyflwyno Cyfnod Ymsefydlu Corfforaethol cyson i ddechreuwy'r newydd



Heriau ac Atebion/Camau

| Challenges | | Solutions/Actions |
|------------|--|---|
| 1 | Paratoi ar gyfer y Cynllun Corfforaethol Newydd | <ul style="list-style-type: none"> Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Corfforaethol newydd a'i fframwaith strategol ategol |
| 2 | Sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ddigon gwydn yn ariannol, yn cyflawni ei gynlluniau ariannol a bod ganddo gynllun ariannol tymor canolog ar waith, i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor | <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet i ddatblygu model gweithredu yn y dyfodol o fewn amgylchedd ariannol y Cyngor h.y. datblygu gwasanaeth a chynllun ariannol tymor canolog |
| 3 | Trawsnewid y Gweithle yn ystod 22/23 | <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'r Rhaglen Trawsnewid y Gweithle ar gyfer Lefelau 3-6 y Ganolfan Ddinesig, a datblygu cynigion ar gyfer lefelau 1-2 a Thŷ Blaen |
| 4 | Datblygu dull caffael newydd sy'n croesawu'r polisiâu a'r blaenoriaethau yn Natganiad Caffael Llywodraeth Cymru | <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'r modiwl partneriaeth waith/dirprwyaeth newydd gyda Chyngor Dinas Caerdydd a rheoli'r cyfnod trawsnewid. Cytuno ar strategaeth gaffael ddiwygiedig a chyflwyno Panel Comisiynu a Chaffael mewnol, newydd |
| 5 | Datblygu dull y Cyngor o rheoli perfformiad | <ul style="list-style-type: none"> Gweithio ar draws pob maes gwasanaeth i ddatblygu a gweithredu dull newydd o ran rheoli perfformiad ac adrodd, gan ddefnyddio Cerdyn Sgôr Cytbwys a Power BI |
| 6 | Diwallu disgwyliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 a'r Prif Weithredwr newydd | <ul style="list-style-type: none"> Datblygu a chyhoeddi adroddiad hunan asesu statudol cyntaf y Cyngor (yn cynnwys yr Adroddiad Llesiant Blynyddol Statudol) ac adolygu dull y cyngor o gynllunio gwasanaethau a hunanwerthuso ar gyfer 2023/24 |
| 7 | Gweinyddu mwy o gynlluniau lles Llywodraeth Cymru i drigolion bregus | <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod systemau a chapasiti ar waith |